

# Cardiff University Sports Terms & Conditions – November 2023

## 1 Rules & Regulations

- 1.1 Cardiff University Sport reserves the right to refuse admission.
- 1.2 Cardiff University Sport will not tolerate disorderly, threatening, or abusive behaviour. Cardiff University Sport reserves the right to exclude individuals from facilities and withdraw membership where it is deemed appropriate.
- 1.3 Specific facility/activity rules & regulations must be always adhered to.
- 1.4 Cardiff University Sport reserves the right to stop or cancel activities, if in its opinion health & safety is being compromised at any time.
- 1.5 Any damage to facility or equipment must be reported promptly to reception.
- 1.6 All access and exit routes must be kept free from obstruction and fire doors must be kept closed at all times.
- 1.7 Smoking / Vaping is not permitted on any University facilities.
- 1.8 Booking times should commence and conclude as booked. Set up and reinstatement of equipment should take place within the designated booking time.
- 1.9 Members making a booking reservation must be present at time of booking.
- 1.10 Food should not be consumed in any of the activity areas unless with prior agreement of Cardiff University Sport.
- 1.11 Drinks should only be consumed from sealed plastic bottles or sports bottles.
- 1.12 All accidents must be reported immediately to the reception.
- 1.13 In the case of an emergency all persons will be required to follow emergency evacuation procedures and leave by the nearest emergency exit.
- 1.14 Cardiff University Sport members must present a valid ID card at reception before using the facilities or services. Failure to produce an ID card may result in entry being refused or a standard charge being applied.
- 1.15 All customers are asked to retain their till receipts for the duration of their visit.
- 1.16 Cardiff University Sport facilities will close for 2 weeks over Christmas / New Year, and all bank holidays. Notices to remind member of these closure dates will be displayed locally and on social media platforms. Membership Subscriptions consider these closure dates.
- 1.17 Cardiff University Sport reserves the right to adjust normal operating hours and recreational programmes within these times at its discretion.
- 1.18 All users wishing to use one of Cardiff University Sports fitness facilities are required to complete a Health questionnaire prior to use.
- 1.19 Suitable footwear / clothing must be always worn at all times.
- 1.20 Group fitness / facility bookings can be made up to 7 days prior to the session.
- 1.21 Group fitness classes must be attended prior to the start of the session. Late admission may not be granted. Refunds will not be offered for Late attendance.
- 1.22 Raquet sports may be booked up to a maximum of 4 people per court for a maximum of 2 hours.
- 1.23 Private personal training is not permitted in any Cardiff University Sport facilities.
- 1.24 The hirer must inform Cardiff University Sport in advance if they are aware of any persons attending their booked session that may require additional assistance in the event of an emergency evacuation for an appropriate plan to be made.
- 1.25 The hirer is responsible for ensuring that those attending their session are fit to participate in the activity or inform Cardiff University Sport in advance should specific requirements need to be catered for.
- 1.26 The facilities must only be used for the purposes specified at the time of booking.
- 1.27 The 'Hirer' should maintain responsibility for the control of participants and spectators associated with their booking activity.
- 1.28 Facility risk assessments are undertaken by Cardiff University Sport. The 'Hirer' must assess the risks associated with their activity.
- 1.29 Booking is for facility hire only. Requests to use Cardiff University Sport equipment should be requested in advance of the booking. Equipment deposits may be taken. Equipment will be subject to availability.
- 1.30 The 'Hirer' will be fully responsible for all persons and property brought onto the premises during the period of hire and shall indemnify 'Cardiff University' from any loss or damage to property.
- 1.31 Booking confirmation must be made in writing to Sport Bookings [sportbookings@cardiff.ac.uk](mailto:sportbookings@cardiff.ac.uk)
- 1.32 Hire of Facilities and/or Services must be confirmed by the completion and return of a Cardiff University Sport Facility Booking form.
- 1.33 Booking arrangements remain provisional and may be cancelled until confirmed in writing.

## 2 Memberships

- 2.1 A 14 day 'cooling off' cancellation period will apply to all membership subscriptions purchased. Refunds will be offered to all subscriptions cancelled within this period. Charges for any sessions attended will then be deducted at the non-subscription rate.
- 2.2 Memberships subscriptions may be refunded on medical grounds if certified.
- 2.3 Requests for refunds should be made, in writing, to the [sport@cardiff.ac.uk](mailto:sport@cardiff.ac.uk)
- 2.4 Membership subscriptions are not transferable.

## 3 Payment

- 3.1 Payment must be received in full prior to the time of use.
- 3.2 Failure to provide payment may revoke all members bookings.
- 3.3 The member will be liable for unpaid bookings. The University will pursue debt collection if full payment has not been received.

## 4 Cancellations

### By The Member

- 4.1 If cancellation is made more than 48 hours prior to the booking cancellation will be accepted with no penalty.
- 4.2 If cancellation is made within 48 hours, or the member fails to attend a booked session, the full charge will be applied. This charge may be sought via invoice.
- 4.3 If Cancellation of group fitness classes is made 24 hours prior to booking, cancellation will be accepted.

### By Cardiff University

- 4.4 In the event of snow or other extreme weather conditions it may be deemed that facilities are unsuitable for activity and bookings cancelled.
- 4.5 Cardiff University reserves the right to cancel or close the facilities for special events or for other circumstances beyond their control.
- 4.6 Cardiff University will make efforts to notify the member as soon as is reasonably possible in the circumstances listed above. All charges paid for bookings affected by these circumstances will be refunded.
- 4.7 Cardiff University reserves the right to cancel a booking if the facility is required by Cardiff University where 8 days written notice can be provided.
- 4.8 In the event of snow or other extreme weather conditions it may be deemed, upon inspection that facilities are unsuitable for the activity booked. Cancellation due to inclement weather must be confirmed by Cardiff University Sport.

### Cancellations of block bookings

#### By The Member

- 4.9 Cancellation made in writing more than 7 days prior to the booking will be accepted with no penalty except a non-refundable deposit that may have been placed.
- 4.10 Cancellation within 7 days, or failure to attend, will result in the full charge being levied. Charges may be sought via invoice.
- 4.11 Frequent cancellation of block booked sessions may result in withdrawal of further block booked sessions.

## 5 Indemnity Insurance

- 5.1 The 'Hirer' is advised to provide its own third-party insurance indemnity cover for the period of hire.
- 5.2 Where any third party makes a claim against the University for damages, compensation and/or costs in respect to injury, death and/or damage to property during the use of facilities by the 'Hirer', the 'Hirer' shall reimburse the university, where the University is strictly liable.

## 6 Payment

- 6.1 Payment must be received in full prior to the time of use, or by prior invoice agreement.
- 6.2 Failure to provide payment will revoke all bookings of the 'Hirer'.
- 6.3 The 'Hirer' will be liable for any unpaid bookings. The University will pursue debt collection if full payment is not received.
- 6.4 Group fitness sessions must be paid for prior attending session.
- 6.5 University debtors with outstanding fees will be subject to further action (which may include legal proceedings) to recover the sums due. Any associated costs (including legal charges) incurred by the University will also be sought from the debtor.
- 6.6 Facility Hire Terms and Conditions are applicable to all bookings and will be strictly enforced unless agreed and specified in writing at the time the booking.

## 7 Pets

- 7.1 Guide dogs are the only pets allowed on Cardiff University Sport premises.

## 8 Car Parking

- 8.1 Please adhere to local arrangements and refer to signage.

## 9 Broadcasting, Television & Photographs

- 9.1 No broadcasting, T.V. or other media personnel may enter the premises for the purposes of coverage or taking photographs without the prior consent of Cardiff University Sport.
- 9.2 In the interests of safety, anyone wishing to use photographic equipment including cameras, video recording equipment and mobile phone cameras must obtain prior permission of Cardiff University Sport.
- 9.3 Use of mobile phones in NOT permitted in any changing facilities.

## 8 Waste and recycling

- 8.1 Members are encouraged to use waste and recycling facilities available within the facilities.

Larger versions of the Terms and Conditions are available on request.

# Telerau ac Amodau Chwaraeon Prifysgol Caerdydd - Tachwedd 2023

## 1 Rheoliadau

- 1.1 Mae Chwaraeon Prifysgol Caerdydd yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i weithgareddau.
- 1.2 Ni fydd Chwaraeon Prifysgol Caerdydd yn goddef ymddygiad afreolus, bygythiol neu sarhaus. Mae Chwaraeon Prifysgol Caerdydd yn cadw'r hawl i wahardd unigolion o gyfleusterau a thynnu aelodaeth yn ôl lle bernir bod hynny'n briodol.
- 1.3 Rhaid cadw at reoliadau cyfleusterau/gweithgareddau penodol bob amser.
- 1.4 Mae Chwaraeon Prifysgol Caerdydd yn cadw'r hawl i atal neu ganslo gweithgareddau os yw o'r farn fod iechyd a diogelwch yn cael eu peryglu ar unrhyw adeg.
- 1.5 Rhaid rhoi gwybod i'r dderbynfya yn syth am unrhyw ddfrod i gyfleusterau neu offer.
- 1.6 Rhaid cadw pob mynedfa ac allanfa'n rhydd rhag rhwystrau a rhaid i ddrwsau tân gael eu cadw ynghau ar bob adeg.
- 1.7 Nid yw ysmegu / feipio'n cael ei ganiatáu yn unrhyw un o gyfleusterau'r Brifysgol.
- 1.8 Dylai'r sesiynau sydd wedi'u cadw ddechrau a gorffen yn ôl yr archeb. Dylai'r gwaith o osod ac ailosod offer ddigwydd yn ystod y sesiwn benodol sydd wedi'i chadw.
- 1.9 Rhaid i aelodau sy'n cadw sesiwn fod yn bresennol wrth wneud hynny.
- 1.10 Ni ddylid bwyta yn unrhyw un o'r ardaloedd gweithgareddau oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw â Chwaraeon Prifysgol Caerdydd.
- 1.11 Dylid yfed diodydd o boteli plastig wedi'u selio neu boteli chwaraeon yn unig.
- 1.12 Rhaid rhoi gwybod yn syth i'r dderbynfya am bob damwain.
- 1.13 Os bydd argyfwng, bydd rhaid i bob person ddilyn gweithdrefnau gadael mewn argyfwng a gadael drwy'r allanfa argyfwng agosaf.
- 1.14 Rhaid i aelodau Chwaraeon Prifysgol Caerdydd gyflwyno cerdyn adnabod dilys yn y dderbynfya cyn defnyddio'r cyfleusterau neu'r gwasanaethau. Os na allwch chi gyflwyno cerdyn adnabod, efallai na chewch chi fynediad, neu efallai bydd ffi safonol yn cael ei chodi.
- 1.15 Gofynnir i bob cwsmer gadw eu derbynneb o'r til drwy gydol yr ymweliad.
- 1.16 Bydd cyfleusterau Chwaraeon Prifysgol Caerdydd yn cau am bythefnos dros y Nadolig / Blwyddyn Newydd, ac ar bob gwyl y banc. Bydd hysbysiadau i atgoffa'r aelodau o'r dyddiadau hyn yn cael eu harddangos yn lleol ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae Tanysgrifiadau Aelodaeth yn cymryd y dyddiadau hyn i ystyriaeth.
- 1.17 Mae Chwaraeon Prifysgol Caerdydd yn cadw'r hawl i addasu'r oriau gweithredu arferol a'r rhaglenni hamdden o fewn yr amseroedd hyn fel y gwel yn dda.
- 1.18 Rhaid i bob defnyddiwr sy'n dymuno defnyddio un o gyfleusterau ffitrwydd Chwaraeon Prifysgol Caerdydd gwblhau holiadur Iechyd cyn ei ddefnyddio.
- 1.19 Rhaid gwisgo esgidiau / dillad addas ar bob achlysur.
- 1.20 Gellir cadw sesiynau ffitrwydd grŵp / cyfleuster hyd at 7 diwrnod cyn y sesiwn.
- 1.21 Rhaid cyrraedd dosbarthiadau ffitrwydd grŵp cyn dechrau'r sesiwn. Efallai na fyddwch chi'n cael ymuno â sesiwn os ydych chi'n cyrraedd yn hwyr. Ni roddir ad-daliadau am gyrraedd yn hwyr.
- 1.22 Gellir cadw sesiynau chwaraeon raced i hyd at uchafswm o 4 o bobl fesul cwrt am uchafswm o 2 awr.
- 1.23 Ni chaniateir hyfforddiant personol preifat yn unrhyw un o gyfleusterau Chwaraeon Prifysgol Caerdydd.
- 1.24 Rhaid i'r llogwr roi gwybod ymlaen llaw i Chwaraeon Prifysgol Caerdydd os yw'n ymwybodol o unrhyw bersonau sy'n mynychu'r sesiwn a archebwyd y gallai fod arnynt angen cymorth ychwanegol os bydd rhaid gadael adeilad mewn argyfwng fel y gellir gwneud cynllun priodol.
- 1.25 Y llogwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rhai sy'n mynychu ei sesiwn yn addas i gymryd rhan yn y gweithgaredd neu dylai roi gwybod ymlaen llaw i Chwaraeon Prifysgol Caerdydd os bydd angen darparu ar gyfer gofynion penodol.
- 1.26 Dim ond at y dibenion a nodir ar adeg archebu'r tocyn y dylid defnyddio'r cyfleusterau.
- 1.27 Dylai'r 'Llogwr' fod yn gyfrifol am reoli'r rheini sy'n cymryd rhan a'r gwylywyr sy'n gysylltiedig â gweithgaredd eu harcheb.
- 1.28 Cynhelir asesiadau risg ar y cyfleusterau gan Chwaraeon Prifysgol Caerdydd. Rhaid i'r 'Llogwr' asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u gweithgaredd.
- 1.29 Mae'r archeb ar gyfer llogi'r cyfleuster yn unig. Dylid gwneud ceisiadau am ddefnyddio offer Chwaraeon Prifysgol Caerdydd cyn archebu. Gellir codi blaendal am offer. Bydd yr offer yn amodol ar argaeledd.
- 1.30 Y 'Llogwr' fydd yn llwyr gyfrifol am bob person ac eiddo a ddaw ar y safle yn ystod y cyfnod llogi a bydd yn indennio 'Prifysgol Caerdydd' rhag unrhyw golled neu ddfrod i eiddo.
- 1.31 Rhaid gofyn am gadarnhad o archeb yn ysgrifenedig i sportbookings@caerdydd.ac.uk
- 1.32 Rhaid cadarnhau llogi Cyfleusterau a/neu Wasanaethau drwy gwblhau a dychwelyd ffurflen Archebu Cyfleuster Chwaraeon Prifysgol Caerdydd.
- 1.33 Mae'r trefniadau archebu yn parhau i fod yn rhai dros dro, a gallent gael eu canslo os na chant eu cadarnhau'n ysgrifenedig.

## 2 Aelodaeth

- 2.1 Bydd cyfnod canslo 'ailfeddwl' o 14 diwrnod yn berthnasol i bob tanysgrifiad aelodaeth sy'n cael ei brynu. Cynigir ad-daliadau am bob tanysgrifiad a

ganslwyd yn ystod y cyfnod hwn. Tynnir taliadau ar gyfer unrhyw sesiynau a fynychwyd ar y gyfradd safonol.

- 2.2 Gall tanysgrifiadau aelodaeth gael eu had-dalu ar sail feddygol os ceir tystiolaeth.
  - 2.3 Dylid gwneud ceisiadau am ad-daliadau yn ysgrifenedig i [sport@caerdydd.ac.uk](mailto:sport@caerdydd.ac.uk)
  - 2.4 Nid yw tanysgrifiadau aelodaeth yn drosglwyddadwy.
- ### 3 Talu
- 3.1 Rhaid derbyn y taliad yn llawn cyn y cyfnod defnyddio.
  - 3.2 Gall methu â chyflwyno taliad ganslo holl archebion aelodau.
  - 3.3 Bydd yr aelod yn atebol am archebion na thalwyd amdanynt. Bydd y Brifysgol yn mynd ati i gasglu dyledion os na chafwyd taliad llawn.
- ### 4 Canslo
- #### Gan Yr Aelod
- 4.1 Os bydd aelod yn canslo dros 48 awr cyn y sesiwn sydd wedi'i chadw, ni chodir unrhyw ffi ar yr aelod.
  - 4.2 Os bydd yr aelod yn canslo o fewn 48 awr, neu os yw'n methu dod i sesiwn sydd wedi'i chadw, rhaid talu ffi lawn. Efallai yr anfonir anfoneb i hawlio'r ffi hon.
  - 4.3 Os bydd aelod yn canslo sesiwn ffitrwydd grŵp 24 awr cyn y sesiwn sydd wedi'i chadw, derbynir y canslo.
- #### Gan Brifysgol Caerdydd
- 4.4 Os bydd eira neu dywydd garw arall, efallai gwneir penderfyniad fod y cyfleusterau'n anaddas ar gyfer gweithgareddau a bydd yr archebion yn cael eu canslo.
  - 4.5 Mae Prifysgol Caerdydd yn cadw'r hawl i ganslo neu gau cyfleusterau ar gyfer digwyddiadau arbennig neu o ganlyniad i amgylchiadau eraill y tu hwnt i'w rheolaeth.
  - 4.6 Bydd Prifysgol Caerdydd yn ymdrechu i roi gwybod i'r aelod gyn gynted ag y bo'n rhesymol bosibl yn yr amgylchiadau a restrir uchod. Bydd pob ffi a dalwyd am archebion y mae'r amgylchiadau hyn yn effeithio arnynt yn cael ei had-dalu.
  - 4.7 Mae Prifysgol Caerdydd yn cadw'r hawl i ganslo archeb os bydd angen y cyfleuster ar Prifysgol Caerdydd lle gellir rhoi 8 diwrnod o rybudd ysgrifenedig.
  - 4.8 Os bydd eira neu dywydd garw arall, efallai gwneir penderfyniad, ar ôl eu harchwilio, fod y cyfleusterau'n anaddas i'r gweithgaredd a gafodd ei archebu. Rhaid i Chwaraeon Prifysgol Caerdydd gadarnhau canslo oherwydd tywydd garw.
- #### Canslo archebion bloc
- #### Gan Yr Aelod
- 4.9 Derbynir hysbysiad ysgrifenedig i ganslo dros 7 diwrnod cyn yr archeb heb gosb, heblaw am flaendal posibl na ellir ei ad-dalu.
  - 4.10 Bydd y ffi lawn yn cael ei chodi os bydd y canslo'n digwydd o fewn 7 diwrnod, neu os nad yw'r aelod yn gallu mynychu. Efallai yr anfonir anfoneb i hawlio'r ffi.
  - 4.11 Os bydd sesiynau bloc a archebwyd yn cael eu canslo'n gyson, efallai bydd sesiynau bloc eraill a archebwyd yn cael eu canslo.
- ### 5 Yswiriant Indemniad
- 5.1 Cynghorir y 'Llogwr' ei hun i ddarparu yswiriant indemniad trydydd parti ar gyfer y cyfnod llogi.
  - 5.2 Pan fo unrhyw drydydd parti yn gwneud hawliad am ddfrod, iawndal a/neu gostau yn erbyn y Brifysgol, mewn perthynas ag anaf, marwolaeth a/neu ddfrod i eiddo wrth i'r 'Llogwr' ddefnyddio cyfleusterau, rhaid i'r 'Llogwr' ad-dalu'r Brifysgol, lle mae'r Brifysgol yn gwbl atebol.
- ### 6 Talu
- 6.1 Rhaid derbyn y taliad yn llawn cyn y cyfnod defnyddio, neu drwy gytundeb anfonebu ymlaen llaw.
  - 6.2 Bydd methiant i dalu'n diddymu holl archebion y 'Llogwr'.
  - 6.3 Bydd y 'Llogwr' yn atebol am archebion na thalwyd amdanynt. Bydd y Brifysgol yn casglu dyledion os na dderbynir taliad llawn.
  - 6.4 Rhaid talu am sesiynau ffitrwydd grŵp cyn mynd i'r sesiwn.
  - 6.5 Bydd dyledwyr y Brifysgol sydd heb dalu ffioedd yn wynebu camau gweithredu pellach (a fydd hwyrach yn cynnwys achos cyfreithiol) i adennill yr hyn sy'n ddyledus. Bydd unrhyw gostau cysylltiedig (gan gynnwys costau cyfreithiol) a ddaw i ran y Brifysgol hefyd yn cael eu ceisio gan y dyledwr.
  - 6.6 Mae Amodau a Thelerau Llogi Cyfleusterau'n berthnasol i bob archeb ac fe'u gorfodir yn llym oni chytunwyd ac oni nodwyd yn ysgrifenedig wrth archebu.
- ### 7 Anifeiliaid anwes
- 7.1 Cwn tywys yw'r unig anifeiliaid anwes a ganiateir ar safleoedd Chwaraeon Prifysgol Caerdydd.
- ### 8 Parcio Ceir
- 8.1 Cofiwch gadw at drefniadau lleol a chyfeirio at yr arwyddion.
- ### 9 Darlledu, Teledu a Ffotograffau
- 9.1 Ni chaff personél darlledu, teledu neu unrhyw bersonél eraill o'r cyfryngau ddod i mewn i'r safle at ddiibenion gohebu neu dynnu lliniau heb ganiatâd ymlaen llaw gan Chwaraeon Prifysgol Caerdydd.

- 9.2 Er mwyn diogelwch, rhaid i unrhyw un sy'n dymuno defnyddio offer ffotograffig gan gynnwys camerâu, offer recordio fideo a chamerau ffonau symudol gael caniatâd ymlaen llaw gan Chwaraeon Prifysgol Caerdydd.
- 9.3 NI chaniateir defnyddio ffonau symudol mewn unrhyw gyfleuster newid.

**8 Gwastraff ac ailgylchu**

- 8.1 Anogir aelodau i ddefnyddio'r cyfleusterau gwastraff ac ailgylchu sydd ar gael yn y cyfleusterau.

Mae fersiynau testun bras o'r Telerau ac Amodau ar gael ar gais.